

Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein ar 9/11/21 am 6.00pm

Yn bresennol yn y cyfarfod: Rebecca 9 / (gadawodd yn gynnar) , Seb 3/6, Libby 8.5/8.5, Seren 7/8, Jemma 8/8.5, Kamile 7/8, Noah 9/, Demi 6/6.5, Ella 7/7.5, Charlie 6/ (gadawodd yn gynnar), Sara 7/6.5

Hwyluswyr: Graham 7/8, Emma 6.5, Tom 9 / 9.9

Ymddiheuriadau: Gethin

Y Materion a Drafodwyd

Eitem ar yr Agenda	Trafodaeth	Camau Gweithredu
1	Croeso a chyflwyniadau / Mewn-gofnodi ac allan-gofnodi fel uchod mewn cromfachau	
2	Diweddariad: Pobl ifanc: <ul style="list-style-type: none">- Cynulliad Ieuenctid - Mynychodd Jemma - diddorol. Ystod eang o bobl ifanc sy'n rhoi llais i bobl ifanc - yn dangos fideo'r CS yn y cyfarfod nesaf.- Cynhadledd Hinsawdd CCAT - Mynychodd Jemma a Charlie - profiad anhygoel yn clywed gweithwyr proffesiynol yn siarad am y Newid Hinsawdd yn eu hardal. Y Parc Cenedlaethol: <ul style="list-style-type: none">- Diwrnod Archaeoleg.- Fideo'r Pwyllgor Ieuenctid yn cael ei hyrwyddo.- Adroddiad ar Wirfoddoli yn cael ei lunio'n derfynol.- Mwy o drafodaethau ar Newid Hinsawdd - ond ddim wir yn adlewyrchu'r hyn y mae pobl yn siarad amdano ar lawr gwlad - gobeithio y bydd hyn yn newid felly mae'r fideo yn amserol. Gwasanaeth Ieuenctid : <p>Mae pobl ifanc 16 - 18 oed bellach yn gymwys i gofrestru i bleidleisio, ac i bleidleisio dros ymgeiswyr lleol y senedd ieuencid. Bydd Rory a Pheonix (cyn aelodau o'r Pwyllgor Ieuenctid) yn sefyll yn yr etholiad ynghyd ag ymgeiswyr eraill ieuencid: Evelyn Thomas a Harry Young. Defnyddier y ddolen ganlynol ar gyfer proffiliau'r ymgeiswyr: https://youthparliament.senedd.wales/candidates/ Rhaid i bobl ifanc gofrestru i bleidleisio: https://www.m nomination.com/wyregister/form/landingpageenglish</p> <ul style="list-style-type: none">· Gŵyl Darganfod Prosiect Eden - gweler ynghlwm a'r ddolen isod i ddigwyddiad tridiau di-dâl ar-lein Gyda'n Gilydd ar gyfer Ein Planed a gynhelir yr wythnos nesaf (11eg-13eg), y gallai fod gennych chi a phobl ifanc ddiddordeb ynddo: https://thefestivalofdiscovery.com/· Cynllun Carbon Sero Net - Mae CSP bellach wedi cyhoeddi eu	Tom: Cynorthwyo Jemma i fynychu (gan gynnwys Manifesto Ieuenctid i ddangos yr ystod o ddiddordebau?). Tom i rannu. GP i rannu.

	<p>cynllun gweithredu cyfeillgar i Bobl Ifanc a'r ddogfen dweud eich dweud: https://haveyoursay.pembrokeshire.gov.uk/net-zero-carbon-the-big-green-plan</p> <ul style="list-style-type: none"> · Gohirio Panel Ieuenctid Holi ac Ateb Y Gwyrdd Mawr - Mae cynllun CYPRO i gael panel ieuenctid Holi ac Ateb gyda mynychwyr perthnasol wedi'i ohirio. Methu â dod â phawb ynghyd oherwydd ymrwymadau gwaith gan gynnwys CYPRO. · Cynllun Diwrnod Plant y Byd - CYPRO yn cynllunio gydag is-grŵp i gynnwys: goleuo neuadd y sir yn las; swyddi cyfryngau cymdeithasol, cystadleuaeth celf, a rhannu fideo newid hinsawdd y Pwyllgor Ieuenctid. 	
3	<p>Cais Cenedlaeth Werdd – Gofalu am ein Dyfodol – ymunodd Emma o Gymdeithas Hosteli Ieuenctid â'r cyfarfod ynghylch cais ar y cyd yn cynnwys Parciau Cenedlaethol Cymru ar gyfer prosiect sydd â'r nod o gael pobl ifanc allan yn amlach er gwell iechyd meddwl.</p> <p>Cyflwynodd Emma gefndir y cais ar y cyd rhwng amrywiol bartneriaid ar gyfer cyflwyno cais i'r loteri 'Gofalu am ein Dyfodol'.</p> <p>Rhannodd y bobl ifanc i ddwy ystafell.</p> <p>Roddodd y bobl ifanc adborth ar 3 cwestiwn.</p> <p>Pa wasanaethau / cymorth yr ydych yn ymwybodol ohonynt allai eich helpu pe byddech chi'n dechrau poeni am eich iechyd meddwl / lles?</p> <p>Grŵp ddim yn gwybod am lawer o rai lleol - GTBAL / DPJ</p> <p>A allwch ddweud ychydig mwy am eich profiadau ym myd natur a'r awyr agored a'r modd y mae hynny yn cael effaith ar eich iechyd meddwl a'ch lles chi eich hun?</p> <p>Yn bendant o fudd - yn enwedig dros gyfnod y clo. Mae bywyd gwyllt yn yr ardd yn codi'ch ysbryd.</p> <p>Oes gennych chi unrhyw brofiad o gyd-ddylunio a phrosiectau dan arweiniad pobl ifanc? A allwch chi feddwl am ffyrdd y gallwn ddylunio'r prosiect hwn fel ei fod yn wirioneddol yn cael ei arwain gan bobl ifanc?</p> <p>Gallai hyder a swildod fod yn broblem o bosibl. Efallai na fyddai llawer yn barod i'w wneud ar y dechrau - byddai digwyddiadau i 'dorri'r ia' ac adeiladu tîm' yn helpu.</p> <p>Poster.</p> <p>Arferai Parcmynd Ieuenctid ddod at ei gilydd i benderfynu beth i'w roi ar y rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf.</p> <p>Byddai'n beth da i gael mwy o arweinwyr ifanc, ond weithiau mae angen eraill i helpu i drefnu pethau.</p> <p>Mae yna lawer fyddai'n hoffi cymryd rhan - angen dod o hyd i ffyrdd o gyfleu neges i wahanol grwpiau megis cartrefi gofal a lleoedd gofal - byddai targedu grwpiau penodol yn dda yn ogystal â grwpiau ieuenctid mwy amlwg.</p> <p>Cyfryngau Cymdeithasol - ni chafodd y Gweithgor fawr o lwyddiant. Os mai ond pobl ifanc fydd yn arwain, gall hynny fod yn llethol, felly mae cael cymorth yn bwysig.</p> <p>Dyweddodd Tom... ..</p> <p>Y camau nesaf ar gyfer gwneud cais</p> <ul style="list-style-type: none"> - Sgyrsiau gyda phobl ifanc o sefydliadau eraill. 	<p>Emma / Tom i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Ieuenctid am y camau ymlaen.</p>

	<p>- Cyflwyno'r cais erbyn 29ain o Dachwedd.</p> <p>-</p>	
4	<p>Ailddatblygu'r 'Ystafell Werdd', APCAP. Yr Ystafell Werdd yw'r brif ystafell gyfarfod yn ein pencadlys ac mae'n mynd i gael ei hail ddatblygu yn ystafell gyfarfod go iawn - gweler y fideo https://public.3.basecamp.com/p/iaa5BnCdyLo4YKrRW6u1EDtg .</p> <p>Beth <u>hoffech chi</u> ei weld?</p> <p>Teimladau / Sylwadau Cyffredinol</p> <p>Yn rhy dywyll ar hyn o bryd - bach yn ddiflas.</p> <p>Pan fyddai'n bwrw glaw roedd sŵn y glaw i'w glywed yn uchel iawn.</p> <p>Ddim yn ysbrydoli rhywun – yn sylfaenol iawn.</p> <p>Fyddwn i ddim yn disgwyl i Swyddfa'r PC edrych fel hynny.</p> <p>Dwlu ar y ffenestr ddeilen – mwy o hynny sydd ei angen.</p> <p>Ddim yn rhywle y bydden ni'n dewis cyfarfod - y gwelltyn byr!</p> <p>Yn edrych yn oeraidd.</p> <p>Mae angen mwy o natur - y tu allan yn ofod gwastraff - lle i gwrdd y tu allan yn enwedig i gadw Pellter Cymdeithasol.</p> <p>Y brif ystafell</p> <p>Yn y coleg mae gennym waliau llithro i wneud lle sy'n hyblyg.</p> <p>Mae fordydd yn helpu i rannu'n wahanol ardaloedd.</p> <p>Cynllun agored.</p> <p>Ystafell llai o faint</p> <p>Cysurus / lleoedd cyfforddus - dodrefn gwahanol gyda chefnau uchel i wneud gwahanol leoedd / gwahanol naws.</p> <p>Y tu allan</p> <p>Gwych o beth fyddai cynnwys cloddiau Sir Benfro.</p> <p>Gallai Parcmy'n leuenctid fod yn ddefnyddiol i greu tirwedd.</p> <p>Nodwedd dŵr – y gellir ei droi ymlaen ac i ffwrdd.</p> <p>Wal werdd.</p> <p>Man cyfarfod yn yr awyr agored.</p> <p>Cyfathrebu</p> <p>Byddai'n wych cael cyfleusterau realiti rhithwyr.</p> <p>Arall</p> <p>Cael To Gwyrdd!</p> <p>Gwneud mwy o natur.</p> <p>Aw'r Graffiti Pŵer blodau.</p> <p>Arddangosiadau / sgriniau / lluniau i ddangos y newyddion diweddaraf ac ati am y Parc (prosiectau, diweddariadau ac ati).</p>	

	<p>Noah Pooley – 'Podlediad Byw' wythnosol - Wedi'i sefydlu yn ddiweddar i roi llais i bobl ifanc ac i bobl ifanc gael eu clywed gan genedlaethau hŷn / ieuenctid eraill.</p> <p>Hoffwn gael gwestai o'r Pwyllgor Ieuenctid - i siarad am y Pwyllgor Ieuenctid ac am Newid Hinsawdd / COP.</p> <p>Unrhyw un i ddod o'r Pwyllgor Ieuenctid? Rebecca / Libby yn barod i ddod fel gwestai</p> <p>noseypooley@gmail.com</p> <p>https://youtu.be/ObDv6VRJndQ</p>	<p>Tom i rannu dolen ac ati gyda'r Pwyllgor Ieuenctid.</p> <p>Tom i gysylltu Rebecca a Libby â Noah.</p>
5	<p>Teithio Llesol / Trafnidiaeth i Bobl Ifanc Yn y cyfarfod diwethaf, cytunwyd ar y pwnc hwn (un o feysydd blaenoriaeth y pwyllgor Ieuenctid) fel y ffocws nesaf i chi. - beth nesaf?</p>	<p>Wedi'i symud i'r agenda nesaf.</p>
6	<p>Unrhyw Fater Arall –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu Manifesto Ieuenctid Sir Benfro • Datblygu gwefan / Cyfryngau Cymdeithasol • Cyfle am weithdy Ieuenctid yng nghyfarfod Aelodau APCAP. • Hyfforddiant • Cais S4C • Sesiwn gwyliau Nadolig / sesiwn penwythnos ??? 	<p>Wedi'u symud i'r agenda nesaf.</p>
7	<p>Dyddiad y cyfarfodydd nesaf: 23^{ain} o Dachwedd 7^{fed} o Ragfyr Gwyliau Nadolig</p>	
8	<p>Allan-gofnodi mewn cromfachau uchod.</p>	